

## IECHYD A DIOGELWCH

Yn gyntaf ac yn bwysicaf oll, gobeithiwn fod y Bwletin Prosiect hwn yn eich cael yn iach a diogel.

Efallai y gwyddoch fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gofyn i'r diwydiant adeiladu barhau i weithio lle mae'n ddiogel gwneud hynny yn ystod pandemig COVID-19.

Ein prif flaenoriaeth yw iechyd a diogelwch ein staff a'r cyhoedd a dim ond lle mae'n ddiogel i wneud hynny y byddwn yn gweithio.

Pan gyhoeddodd y Llywodraeth ganllawiau ar ymbellhau cymdeithasol, fe wnaethom ohirio ein holl waith dros dro. Gwnaed y penderfyniad hwnnw i'n galluogi i adolygu ein dulliau o weithio a gweithredu'r mesurau sydd eu hangen er mwyn i waith barhau i gydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth. Mae gennym yn awr fesurau yn eu lle ac rydym mewn sefyllfa i'n gwaith ailddechrau. Caiff y mesurau hyn eu hasesu'n ddyddiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Llywodraeth a'n safonau iechyd a diogelwch ein hunain.

Hoffem ddiolch i'r gymuned leol am eu cydweithrediad a'u hamynedd tra bod ein gwaith yn mynd rhagddo.



Arwyddion ar Heol Cas-gwent yn diolch i'n gweithwyr allweddol

## Sesiynau Galw Heibio - Fe wnaethom

benderfynu gohirio ein sesiynau galw heibio dros dro. Rydym yn siŵr y byddwch yn deall y rhesymau am wneud y penderfyniad hwn. Fodd bynnag, hoffem eich sicrhau ein bod yn dal i fod yma i chi os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynllun. Mae manylion sut i gysylltu â ni yn y troednodyn islaw. Byddwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf are y cynllun drwy ein cyflenwad Twitter [@AlunGriffiths\\_](https://twitter.com/AlunGriffiths_)

## Cynnydd Prosiect

Caiff Gofod Cyrchfan Croes Cil-y-coed ei adeiladu mewn 5 cam (mae manylion ar ein gwefan gymunedol). Rydym wedi cwblhau llawer o'r gwaith palmant o amgylch y senotaff fel rhan o Gam 1 a mwyafrif y gwaith gosod cwrbyn a phalmant ar Sandy Lane yng Ngham 2. Rydym yn awr yn dechrau gosod celfi stryd yng Ngham 3. Mae hyn yn cynnwys y safle bws ac ailadeiladu'r llwybr sy'n rhedeg wrth ochr The Cross Inn. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy weddill mis Mehefin a mis Gorffennaf a byddwn hefyd yn dechrau ar Gamau 4 a 5.

## Cau Ffordd Dros Dro

Gan ddechrau ddydd Mercher 10 Mehefin 2020 am tua 8 wythnos, bydd rhan o Heol Cas-gwent yn cael ei chau dros dro (lle mae'r heol yn ymuno â Heol yr Eglwys). Bydd y cau ffordd dros dro ar sail 24 awr a bydd yn ein galluogi i gwblhau gosod pibelli, draeniad, palmentydd a gwaith ailadeiladu'r lôn cerbyd a fanylir yng Nghamau 4 a 5. Bydd llwybr gwyro ar waith, gydag arwyddion clir. Mae copi o'r llwybr gwyro ar gael ar ein gwefan (manyion islaw). Bydd system goleuadau traffig dwy ffordd dros dro ar waith rhwng Heol yr Eglwys a Sandy Lane pan fydd y ffordd ar gau dros dro. Gofynnwn i chi roi ystyriaeth i hyn wrth gynllunio unrhyw deithiau, gan y gallech brofi oedi byr.

Byddem yn ddiolchgar clywed eich sylwadau. Gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan [community.alungriffiths.co.uk](https://community.alungriffiths.co.uk) neu drwy gysylltu â Georgie Davies, ein Swyddog Cyswllt Cyhoeddus ar 0330 041 2183\* neu drwy e-bost yn [georgie.davies@alungriffiths.co.uk](mailto:georgie.davies@alungriffiths.co.uk)

\*Codir y gyfradd alwadau genedlaethol are alwadau i'r rhif hwn a'i gynnwys yn y cynllun munudau cynhwysol o linellau daear a ffonau symudol.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



monmouthshire  
sir fynwy

Gweithio mewn partneriaeth â  
Llywodraeth Cymru  
Y Gronfa Targeddu Buddsoddi

Working in partnership with  
Welsh Government  
Targeted Regeneration  
Investment Fund